

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Vergam

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad arolygu: 5 Gorffennaf
2019

Dyddiad cyhoeddi: 7 Hydref 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	17
4.	Beth nesaf?	20
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	22
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	23
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	24

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Vergam yn 6 Vergam Terrace, Abergwaun, SA65 9DD, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ar 5 Gorffennaf 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y gwasanaeth yn darparu gwasanaeth diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd y practis yn bodloni'r holl safonau angenrheidiol a nodir yn y rheoliadau ac o ganlyniad, nid oedd unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella.

Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth gref ac roedd y polisïau a'r gweithdrefnau gofynnol ar waith i gefnogi'r cleifion a'r staff.

Roedd y deintyddfeydd yn cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel, yn ogystal â'r dderbynfa a'r ardaloedd aros.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod y deintyddfeydd yn cael eu cadw i safon uchel.
- Cafwyd adborth cadarnhaol gan y cleifion a oedd yn nodi eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir.
- Roedd tystiolaeth i ddangos bod y rheolwr cofrestredig yn rheoli ac yn arwain yn gadarn a bod cydberthnasau da rhwng y staff.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle'r oedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Vergam yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Abergwaun. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, dwy nyrs ddeintyddol, tri aelod o staff y dderbynfa, y mae dwy ohonynt yn nyrsys deintyddol cymwys hefyd.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (Ile'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod Practis Deintyddol Vergam yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion.

Roedd gan y practis amrywiaeth eang o wybodaeth i helpu cleifion i wneud dewisiadau effeithiol ynglŷn ag iechyd y geg da ac opsiynau triniaeth yn ôl yr angen. Roedd yr awyrgylch yn groesawgar, a gwelsom fod y staff yn ymdrechu'n bwrpasol i wneud i'r cleifion ymlacio a theimlo'n gartrefol ar ôl iddynt gyrraedd.

Cyn yr arolygiad, dosbarthwyd holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 103 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd yr holl holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn gleifion yn y practis am gyfnod o lai na blwyddyn i fwy na dwy flynedd.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'ardderchog'. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

“Mae pob aelod o'r staff bob amser yn hyfryd, yn ofalgar ac yn ystyriol. Mae'n bleser cael triniaeth yn y ddeintyddfa hon”

“Mae'n wych! Mae staff y dderbynfa'n ardderchog - bob amser yn barod i helpu ac i fynd yr ail filltir i ateb fy nghwestiynau. Mae'r staff deintyddol yn broffesiynol iawn - darperir gofal a gwybodaeth ardderchog. Mae tair cenhedlaeth o'n teulu'n dod yma - mae hynny'n dweud lcyfrolau”

“Hoffwn gydnabod pa mor wych yw'r tîm cyfan, maen nhw'n wych gyda'm plant a minnau”

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Dywedodd y cleifion:

“Cynnig mwy na 1 noswaith yr wythnos o driniaeth deintyddol ar gyfer pobl sy'n gweithio, ac efallai derbynfa fwy o faint a mannau preifat wneud taliadau”

“Mwy o ddeunydd darllen i blant”

“Gallent gael gorsaf dŵr yfed”

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt am sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gwelsom fod ystod eang o wybodaeth ar gael i'r cleifion yn yr ardal aros am driniaethau preifat a thriniaethau'r GIG, yn ogystal â gwybodaeth gyffredinol am iechyd y geg i oedolion a phlant. Roedd hyn yn enghraifft dda o'r practis yn helpu cleifion i gynnal eu hiechyd a hylendid y geg eu hunain.

Gofal ag urddas

Yn ddieithriad, roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff pan wnaethant ymweld â'r practis.

Gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gwrtais. Dywedodd y staff wrthym y gallent ddefnyddio ardal y gegin neu'r ystafell pelydr-X petai angen cael sgwrs breifat wyneb yn wyneb neu dros y ffôn â chlaf. Roedd gan bob un o'r deintyddfeydd ddrysau y gellid eu cau er mwyn sicrhau'r lefelau priodol o breifatrwydd ac urddas i gleifion sy'n cael triniaeth.

Nodwyd gennym fod y naw egwyddor a nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol¹ yn cael eu harddangos yn yr ardal aros lle roedd ar gael yn glir i'r cleifion.

¹ <https://standards.gdc-uk.org/> Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi nodi naw egwyddor sy'n gymwys i bob gweithiwr deintyddol proffesiynol cofrestredig. Maent yn amlinellu'r safonau, y perfformiad a'r foeseq y gall cleifion eu disgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

Gwybodaeth i gleifion

Lle y bo'n gymwys, dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr hoffent mewn unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth. Gwnaethant hefyd ddweud eu bod wedi cael gwybodaeth glir am y triniaethau sydd ar gael a bod y gost bob amser yn cael ei hegluro cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Roedd y wybodaeth yn esbonio costau triniaeth y GIG a thriniaeth breifat yn glir i'r cleifion ym mhob rhan o'r practis.

Roedd y Daflen Wybodaeth i Gleifion ar gael i'r cleifion. Roedd y daflen yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am y practis a'r holl wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl y Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (2017).

Y tu allan i'r adeilad, gwelsom fod oriau agor y practis yn cael eu harddangos. Roedd y rhif ffôn cyswllt mewn argyfwng hefyd yn cael ei arddangos yn y cyntedd.

Cyfathrebu'n effeithiol

Mae'r cleifion yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith o fewn y practis. Roedd rhai aelodau o'r staff yn siarad Cymraeg yn rhugl, ac roedd gwybodaeth ysgrifenedig hefyd ar gael yn y ddwy iaith. Roedd y practis hefyd yn ymwybodol o'r llinell iaith petai angen gwasanaethau cyfieithu ar siaradwr Cymraeg neu unigolyn nad yw'n siarad Saesneg.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith 'bob amser'.

Gofal amserol

Dywedodd y mwyafrif llethol o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau petai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod yn 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Roedd manylion yn nodi sut y gallai cleifion gael gafael ar ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau ar gael i gleifion yn y cyntedd, yn y daflen i gleifion ac ar wefan y practis.

Roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau bod y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym, petai deintydd yn rhedeg yn hwyr, y byddent yn rhoi

gwybod i'r claf oedd yn aros am unrhyw oedi ac yn caniatáu iddynt aildrefnu petai angen iddynt wneud hynny.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Lle roedd hynny'n gymwys, cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur bod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Yn ystod yr arolygiad, nodwyd gennym fod yr opsiynau triniaeth wedi'u cofnodi ar bob un o'r cofnodion perthnasol a welsom. Dangosodd hyn fod y cleifion yn cael eu cefnogi i wneud penderfyniadau am eu hopsiynau triniaeth.

Hawliau pobl

Roedd y practis yn addas i bobl oedd yn defnyddio cadeiriau olwyn am ei fod wedi'i leoli ar y llawr gwaelod. Roedd toiled y cleifion yn addas i ddefnyddiwr cadeiriau olwyn hefyd.

Gwelsom fod sawl polisi ar waith i gefnogi'r staff a'r cleifion, gan gynnwys polisi derbyn cleifion a pholisi cyfle cyfartal. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn gallu cyflawni ei ymrwymadau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Gwelsom fod polisi cwynion ar waith a oedd yn cydymffurfio â rhaglen Gweithio i Wella² y GIG a'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat. Mae unigolyn cyfrifol penodedig yn ymdrin ag unrhyw gwynion. Roedd hefyd blwch awgrymiadau yn y cyntedd lle gall cleifion roi adborth a gwneud awgrymiadau anffurfiol. Gwelsom lyfr 'sylwadau' yn ardal y dderbynfa lle roedd sylwadau perthnasol yn cael eu cofnodi a rhoddir adborth i'r staff.

²http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/932/Healthcare%20Quality%20-%2030166_Putting%20Things%20Right_a5%20leaflet_Welsh_WEB%20VERSION%20-%20FINAL%20-%202017%2003%20011.pdf

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Gwelsom fod y cyfleusterau clinigol yn cynnwys adnoddau digonol a bod trefniadau ar waith i drin cleifion yn ddiogel.

Gwelsom hefyd fod y practis yn cael ei gynnal i safon uchel ac roedd y deintyddfeydd mewn cyflwr da.

Gwelsom fod y cofnodion meddygol yn cael eu cadw i safon uchel.

Gwelwyd bod y cyffuriau brys a'r cyfarpar cynorthwyol yn cael eu rheoli'n ddiogel.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ni leisiodd y cleifion unrhyw bryderon am lendid y practis deintyddol. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn 'lân iawn'.

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal i safon uchel. Gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef. Roedd y tu allan i'r adeilad i'w weld yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd y tu mewn i'r adeilad yn olau, yn daclus ac yn fawr.

Gwelsom fod nifer o bolisiau cynhwysfawr ar waith mewn perthynas ag addasrwydd yr adeilad. Roedd y rhain yn cynnwys polisi iechyd a diogelwch, polisi rheoli risgiau a pholisi wrth gefn mewn argyfwng. Roedd polisiau ac asesiadau risg ar gael yn hawdd i bob aelod o'r staff ac yn cael eu nodi mewn cyfarfodydd tîm. Roedd asesiad risg amgylcheddol digonol ar waith er mwyn helpu i ddiogelu staff a chleifion.

Gwelsom fod dyfeisiau diffodd tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn yr adeilad a nodwyd gennym eu bod wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd asesiad risg diogelwch tân ar waith yn y practis, yn ogystal â pholisi tân. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant tân priodol.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH) 2002³, mae angen i gyflogwyr naill ai leihau amlygiad staff i sylweddau sy'n beryglus i'w hiechyd, neu ei atal yn gyfan gwbl. Gwelsom fod gan y practis brotocol 'Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd' (COSHH) a pholisi ar gyfer trin a thrafod mercwri. Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer cludo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n glinigol yn ddiogel. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n briodol.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis broses ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offerynnau deintyddol yn y ddwy ddeintyddfa. Gwelsom dystiolaeth fod y protocol ar gyfer archwilio'r offer sterileiddio ar gael ac yn gyfredol ac roedd polisi rheoli heintiau a pholisi diogelu offer miniog ar waith i'r staff gyfeirio atynt. Roedd hyn yn golygu bod y staff a'r cleifion yn cael eu diogelu'n ddigonol rhag anafiadau a heintiau a achosir gan nodwyddau. Roedd cyfarpar diogelu personol hefyd ar gael i'r staff ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth wneud gwaith dihalogi.

Roedd y deintyddfeydd yn amlwg yn lân ac yn daclus, ac yn cynnwys yr holl ddeunyddiau a chyfarpar priodol er mwyn sicrhau y caiff heintiau eu hatal a'u rheoli. Roedd cypyrddau modern ym mhob ddeintyddfa a oedd yn hawdd eu glanhau. Roedd y lloriau wedi'u selio a'u hymestyn at y waliau, er mwyn sicrhau eu bod yn hawdd eu glanhau. Mae arweinydd rheoli heintiau penodedig yn ei le sy'n sicrhau bod y cyfarpar a'r hyfforddiant yn gyfredol.

Roedd y practis wedi gwneud trefniadau priodol â'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol lleol i ddelio ag unrhyw anafiadau a achosir gan offer miniog a/neu frechiadau. Mae'n ofynnol i'r staff clinigol gael eu himiwneiddio rhag Hepatitis B er mwyn eu hamddiffyn nhw eu hunain a'r cleifion rhag yr haint. Gwelsom gofnodion yn ymwneud â statws imiwneiddio Hepatitis B pob aelod o'r staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

³ http://www.hse.gov.uk/foi/internalops/ocs/200-299/273_20/

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau mewn perthynas â chleifion, gan gynnwys gweithdrefn dadebru ac argyfyngau meddygol. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant yn ystod y deuddeg mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd.

Roedd y practis wedi penodi dau swyddog cymorth cyntaf, gan sicrhau y câi'r staff a'r cleifion gymorth cyntaf priodol pe byddai damwain neu anaf.

Roedd pecyn cymorth cyntaf y practis yn gyflawn ac yn gyfredol. Roedd gan y practis bolisiâu a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod modd cael gafael ar feddyginiaethau'n briodol, yn ogystal â'u trin, eu defnyddio, eu storio a'u gwaredu'n briodol, ac roedd pob aelod o'r staff wedi cytuno ar y polisiâu a'r gweithdrefnau hynny. Nodwyd gennym fod gan y practis broses gynhwysfawr ar gyfer gwirio'r stoc o gyfarpar brys a ddefnyddiwyd.

Roedd y cyfarpar a'r cyffuriau brys yn cael eu storio mewn cwpwrdd ac roeddent i gyd yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cyngor Dadebru.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod polisiâu a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion agored i niwed, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt yr asiantaethau diogelu perthnasol.

Ar adeg yr arolygiad, roedd yr holl staff wedi cael hyfforddiant diogelu priodol ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd swyddog diogelu arweiniol hefyd mewn swydd. Gwnaethom argymell y dylai swyddog diogelu arweiniol y practis ystyried cwblhau hyfforddiant diogelu lefel uwch er mwyn sicrhau bod ganddo'r sgiliau a'r ddealltwriaeth briodol o faterion diogelu i weithredu fel swyddog arweiniol.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwelsom fod cyfarpar priodol yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol.

Yn unol â'r rheoliadau, roedd gan y practis bolisi cynnal a chadw a diogelwch cyfleusterau a oedd yn cynnwys profi offer, cynnal asesiadau risg priodol a rhoi gwybod am ddiwyddiadau.

Roedd y cyfarpar radiolegol (pelydr-X) mewn cyflwr da ac roedd yr ardaloedd rheoledig wedi'u nodi. Gwelsom ddogfennaeth i ddangos bod y peiriannau

pelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y ffeil diogelu rhag ymbelydredd yn gyfredol ac yn gynhwysfawr, ac yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol. Gwelsom fod y rheolau lleol⁴ wedi'u harddangos yn y deintyddfeydd.

Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol⁵ a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol)⁶ 2017, roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth fod nifer o archwiliadau clinigol ar waith yn y practis er mwyn helpu i ddangos ei fod yn cadw at y safonau proffesiynol cyfredol. Bydd canlyniadau'r archwiliadau yn helpu i nodi unrhyw feysydd i'w gwella ac yn cefnogi unrhyw newidiadau i arferion y tîm deintyddol.

Roedd datganiad o ddiben y practis yn nodi'r trefniadau priodol ar gyfer derbyn, asesu, diagnosiso a thrin cleifion. Roedd gan y practis hefyd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith i ategu'r swyddogaethau hyn.

Gwelsom dystiolaeth drwy gydol y dydd fod canllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol, megis canllawiau NICE⁷, yn cael eu hystyried a'u dilyn lle y bo'n briodol.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Fel y nodwyd uchod, gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi cwblhau amrywiaeth o archwiliadau clinigol ac wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i ganllawiau proffesiynol.

⁴ Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli diogelwch laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf

⁵ Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

⁶ http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

1. ⁷ <https://www.nice.org.uk/.../oral-and-dental-health>

Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio adnodd datblygu practisau 'Matrics Aeddfedwydd ar gyfer Deintyddiaeth'⁸ Deoniaeth Cymru fel ei adnodd gwella ansawdd. Mae'r rhain yn adnoddau datblygu practisau deintyddol sy'n annog y tîm i ganolbwyntio ar arfer gorau a gofynion deddfwriaethol ac ar y ffordd maent yn gweithio gyda'i gilydd.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel, gan sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif yn cael ei diogelu. Roedd copïau wrth gefn o gofnodion electronig yn cael eu gwneud yn rheolaidd er mwyn diogelu gwybodaeth cleifion a helpu i sicrhau nad oedd yn cael ei cholli.

Roedd nifer o bolisiau a gweithdrefnau priodol ar waith yn y practis, gan gynnwys polisi diogelu data. Golygai hyn fod y staff yn gallu cael gafael ar ganllawiau addas mewn cysylltiad â'u gwaith o ddydd i ddydd.

Cadw cofnodion

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion a gwelsom fod y rhain yn cael eu cadw i safon uchel. Roedd yr holl samplau a adolygwyd yn dangos bod y cofnodion yn gynhwysfawr ac yn cynnwys cofnod cyfoes a chywir o'r holl asesiadau, cynlluniau triniaeth a thriniaethau a ddarperir i'r claf. Gwelsom fod y cofnodion yn broffesiynol iawn ac yn cofnodi'r trafodaethau a gynhaliwyd ynghylch opsiynau triniaeth, costau a rhesymau dros apwyntiadau.

Dangoswyd i ni'r ardaloedd lle roedd cofnodion cleifion presennol a blaenorol yn cael eu cadw mewn cabinetau dan glo i ffwrdd oddi wrth y cleifion eraill. Dywedwyd wrthym fod cofnodion yn cael eu cadw am o leiaf wyth mlynedd.

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod cofnodion digidol yn cael eu cadw'n ddiogel yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Dywedodd y staff wrthym fod cyfrifiaduron wedi'u diogelu â chyfrinair a bod gan bob aelod o'r staff gyfrinair unigol.

⁸ <https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry>

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom dystiolaeth o ddulliau rheoli ac arwain ardderchog yn y practis.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith yn y practis, a oedd yn cael eu hadolygu bob blwyddyn, a gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi'u darllen.

Roedd gweithdrefnau rheoli cadarn ar waith er budd y staff, gan gynnwys proses flynyddol ar gyfer arfarnu staff a chyfarfodydd staff rheolaidd.

Gwelsom fod y rheolwyr a'r staff yn cyfathrebu â'i gilydd yn dda a bod eu rolau a'u cyfrifoldebau'n glir.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Deintyddfa Vergam yn berchen i'r Rheolwr Cofrestredig⁹, sydd hefyd yn gweithredu fel yr Unigolyn Cyfrifol¹⁰ a'r prif ddeintydd. Caiff y Rheolwr Cofrestredig ei gefnogi gan dîm ehangach o staff clinigol ac anghlinigol. Gwelsom

⁹ Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o'r Ddeddf fel rheolwr practis deintyddol preifat.

¹⁰ Ystyr "unigolyn cyfrifol" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli;

fod gan y practis linellau atebolrwydd clir a dywedodd y staff wrthym eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Dywedodd pob un o'r staff wrthym eu bod yn cydweithio'n dda ac roedd y gydberthynas dda rhyngddynt â'r ffordd roeddent yn rhyngweithio â'r cleifion yn dystiolaeth o hyn. Roedd y staff yn ymwybodol o'r polisi chwythu'r chwiban ac yn hyderus i godi unrhyw broblemau neu bryderon am ofal y cleifion, naill ai'n uniongyrchol gyda'r deintydd, neu gyda chorff amgen priodol, lle bo angen.

Roedd yr holl staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion ac ategwyd hyn gan ystod o bolisiâu a gweithdrefnau. Roedd y Datganiad o Ddiben a'r Daflen Wybodaeth i Gleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Cadarnhaodd y Rheolwr Cofrestredig ei bod yn ymwybodol o'i dyletswyddau mewn perthynas â hysbysiadau, gan gynnwys anafiadau difrifol i gleifion ac absenoldeb y Rheolwr Cofrestredig neu newidiadau i'r Rheolwr Cofrestredig, y mae'n rhaid eu hanfon i AGIC¹¹.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnedd priodol ar waith ar gyfer pob un ohonynt. Gwelsom fod tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y practis yn cael ei harddangos yn y dderbynfa.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

¹¹ O dan reoliadau 25-29 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, rhaid i'r darparwr cofrestredig hysbysu AGIC am ddiwyddiadau pwysig, gan gynnwys anafiadau difrifol i gleifion ac absenoldeb y rheolwr cofrestredig neu newidiadau i'r rheolwr cofrestredig.

Roedd gan y practis nifer o bolisiâu a gweithdrefnau adnoddau dynol ar waith, gan gynnwys polisi recriwtio. Roedd y staff hefyd yn cael arfarniadau rheolaidd a gwelsom dystiolaeth i ddangos bod cynlluniau datblygu personol ar waith.

Gwelsom dystysgrifau yn dangos tystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau er mwyn cefnogi eu gofynion o ran datblygu proffesiynol parhaus. Roedd holl ffolderi personél y staff yn dilyn yr un fformat er mwyn sicrhau cysondeb wrth gadw cofnodion.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn cynnal cyfarfodydd staff yn rheolaidd. Gwelsom gofnodion y cyfarfodydd hyn ac roedd y staff na allent fod yn bresennol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf gan reolwr y practis.

Mae'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis feddu ar Dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau clirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff.

Mae'n ofynnol i'r staff clinigol gael eu himiwneiddio rhag Hepatitis B er mwyn eu hamddiffyn nhw eu hunain a'r cleifion rhag yr haint. Darparodd y practis dystiolaeth o imiwnedd ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Cysylltiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon roedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth:

Dyddiad arolygu:

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr adolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Tudalen 24 o 24